**Cofnodion Arbennig o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU FFYNIANNUS**
**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron.**
**ddydd Dydd Gwener, 1 Hydref 2021**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Marc Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Elizabeth Evans, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, John Adams-Lewis, Rhodri Davies, Gwyn James a John Roberts.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Alun Williams, Gareth Lloyd, Ray Quant, Catrin Miles, (Aelodau Cabinet),
Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Elaine Evans a Dan Potter.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Iona Davies a Carol Thomas (Cyfieithwyr); Megan Lewis, Swyddog Cyfathrebu; Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu.

(10.00 am - 12.30 pm)

**11 Ymddiheuriadau**

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

**12 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).
Datgelodd y Cynghorydd Ceredig Davies, Sylwedydd, fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu a dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i siarad yn unig.

**13 Parthau Diogel**

Croesawodd y Cadeirydd Russell Hughes-Pickering a Rhodri Llwyd i'r cyfarfod. Rhoddodd Russell gyflwyniad i'r Pwyllgor gan amlinellu'r canlynol:

- Pam?
- Adborth o'r Arolwg
- Y Cynlluniau Gwreiddiol

- Y Cynlluniau a Addaswyd
- Lluniau
- Yr hyn a ddigwyddodd mewn mannau eraill
- Adborth gan fasnachwyr
- Y Camau Nesaf

Dywedodd Russell wrth y Pwyllgor fod y sefyllfa argyfyngus o ran pandemig Covid wedi arwain at gyflwyno amrywiaeth eang o fesurau i ddiogelu pobl y sir ac ymwelwyr. Ychwanegodd mai un o'r mesurau hynny oedd cyflwyno'r Parthau Diogel yn Aberystwyth, Aberaeron a Cheinewydd yn ystod Mehefin / Gorffennaf 2020. Ar ôl cyflwyno'r mesurau hyn, cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf rhwng 31.7.2020 a 10.8.2020 a chynhaliwyd yr ail ymgynghoriad rhwng 26.10.2020 a 21.12.2020. Dywedwyd bod yr ymatebion a ddaeth i law yn dda.

Gwnaeth y cyflwyniadau hefyd roi crynodeb o'r adborth arall a dderbyniwyd drwy Clic a'r arolygon ymgysylltu a'r ymateb a gafwyd gan yr Aelodau a'r Fforwm Anabledd. Esboniwyd y mesurau a roddwyd ar waith ac eglurwyd sut y cawsant eu haddasu yn sgil yr adborth. Rhannwyd lluniau i ddangos sut oedd y Parthau Diogel wedi esblygu o'r adeg y cawsant eu rhoi ar waith hyd at heddiw. Dangoswyd hefyd enghreifftiau o fesurau tebyg mewn mannau eraill.

Ar ôl hynny, aeth Russell yn ei flaen i roi crynodeb o'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan y rheiny oedd yn masnachu yn yr awyr agored. Roedd yr adborth hwn yn dangos bod y mesurau a gyflwynwyd wedi cadw a chreu swyddi a bod y masnachwyr yn awyddus i adeiladu ar y cyfleoedd hyn yn y dyfodol.

Wrth gloi, amlinellodd Russell y camau nesaf a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r Aelodau lleol ac Aelodau'r Cabinet ym mis Hydref, cyflwyno adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd, ymgysylltu eto â'r Aelodau ym mis Tachwedd a chyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Rhagfyr neu Ionawr. Byddai Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol yn cael ei gyflwyno pe byddai cefnogaeth i hynny. Byddai'r broses hon yn cynnwys cyfnod ymgynghori o chwe mis fel y gellid derbyn rhagor o adborth ac addasu ymhellach.

Ar ôl hynny, cafodd yr Aelodau y cyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Russell neu Rhodri.

Ymhlith y prif bwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

- Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn gytûn y dylai cyfathrebu rheolaidd â'r Aelodau Lleol ac Aelodau'r Wardiau cyfagos fod wedi digwydd yn gynnar yn y broses. Gofynnodd y Pwyllgor fod yr Aelodau yn cael eu cynnwys yn ystod unrhyw drafodaethau cynnar yn y dyfodol cyn bod unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud ynglŷn â'r Parthau Diogel;
- Dylid ystyried pryderon y genhedlaeth hŷn a'r rheiny sy'n anabl a'u cynnwys yn y cynigion;

- Dylid darparu digon o lefydd parcio i'r genhedlaeth hŷn a'r rheiny sy'n anabl ar bob adeg;
- Yn y dyfodol, dylid ystyried mynediad i loriau mawr a gyrwyr sy'n cludo nwyddau;
- Dylid sicrhau bod gan y gwasanaethau brys fynediad clir yn enwedig y rheiny sydd wedi'u lleoli yng nghanol y trefi fel y gallant ymateb yn gyflym i argyfyngau;
- Dylid ystyried barn y trigolion lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol;
- Dylid ystyried gosod mwy o arwyddion ar gyrion tref Aberteifi fel nad oes traffig diangen yn mynd drwy'r dref;
- Roedd yr Aelodau wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn flaenorol gan amlinellu'r canlyniadau anfwriadol posibl. Nid yw'n ymddangos bod y rhain wedi'u hystyried wrth roi'r trefniadau ar gyfer y Parthau Diogel ar waith. Gofynnodd y Pwyllgor fod y sylwadau hyn yn cael eu hystyried cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud yn y dyfodol ynglŷn â'r Parthau Diogel;
- Yn dilyn effeithiau Covid, dylid ystyried cynlluniau Adfywio **pob** tref yn y Sir rhyw ben yn y dyfodol.
- Byddai Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cynnal adolygiad yn y dyfodol agos ynglŷn â Chynllun y Bathodynnau Glas a byddai'n gofyn a oes digon o lefydd parcio ym mhob tref;
- Yn ystod y drafodaeth, dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai staff y Gwasanaeth Casglu Gwastraff gael eu canmol am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod y 18 mis anodd diwethaf;
- Gofynnwyd a fyddai modd casglu'r conau a'r rhwystrau nad oes mo'u hangen mwyach o ganol tref Aberteifi.

Dywedodd Russell y byddai'r Aelodau perthnasol a'r Aelodau Cabinet yn rhan o'r trafodaethau yn y dyfodol a fyddai'n dechrau yng nghanol mis Hydref 2021. Ar ôl hynny, byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 4 Tachwedd 2021 cyn i'r mater fynd gerbron y Cabinet.

**14 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar

15 Gorffennaf 2021 yn rhai cywir ac nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**15 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu**

Cytunwyd y dylid cynnwys adroddiad am drosglwyddo safleoedd trin carthion o ddwylo Cyngor Sir Ceredigion i Dŵr Cymru ar agenda cyfarfod y Pwyllgor ar 4 Tachwedd 2021. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o Dŵr Cymru i'r cyfarfod hwn.

Byddai angen ystyried effaith Covid ar bob tref yn y sir yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddod i'r cyfarfod a diolchodd i’r Swyddogion am gyflwyno’r wybodaeth ac am sicrhau bod y cyfarfod wedi rhedeg yn rhwydd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**